

## **Canllawiau Cenadwri Pwyllgor y Senedd ar E-gyflwyno**

Cyfarfu'r Senedd ar 4 Mawrth 2015 a chymeradwyo cyfres o argymhellion ynghylch e-gyflwyno ac e-adborth. Dylai staff y Brifysgol nodi'r hyn y mae'r Senedd yn disgwyl iddynt ei wneud.

**Pwynt 1:** *O'r flwyddyn academaidd nesaf ymlaen (Medi 2015), disgwylir i staff academaidd dderbyn pob aseiniad testunol cyfrwng Saesneg, eu graddio ac anfon adborth arnynt via Turnitin o fewn 15 diwrnod gwaith. Dylai aseiniadau testunol cyfrwng Cymraeg barhau i gael eu cyflwyno via Blackboard tan y bydd rhyngwyneb Cymraeg ar gael via Turnitin. Bydd pob eithriad arall i'r gofynion hyn yn parhau yr un fath â'r drefn gyfredol.*

### **Disgwylir i staff academaidd:**

- 1. Dderbyn gwaith i'w asesu gan fyfyrwyr via Turnitin**
- 2. Rhoi graddfa ar gyfer gwaith i'w asesu via Turnitin**
- 3. Rhoi adborth i fyfyrwyr via Turnitin**

### *Canllawiau pellach:*

\*Gellir derbyn, graddio a rhoi adborth ar asesiadau cyfrwng Cymraeg via Blackboard Assignment'

\*Mae asesiadau an-nhestunol (megis perfformiadau/gwaith ymarferol/gwaith celf a.y.b.) wedi'u heithrio. Ond, er mwyn ceisio cael cysondeb o ran asesu ac adborth, **cyngorir** mai'r **arfer gorau** yw rhoi adborth a marc yn electronig. Gall y Grŵp E-ddysgu gynorthwyo i osod aseiniadau yn Blackboard er mwyn hwyluso rhoi adborth i fyfyrwyr. Byddai hyn yn golygu bod myfyrwyr yn cael adborth ar yr **holl** waith yn electronig.

\* Yn achos aseiniadau nad yw Turnitin yn addas ar eu cyfer (er enghraifft cyflwyniadau mawr neu gyflwyniadau aml-ran) gellir cyflwyno'r rhain trwy Blackboard Assignment o hyd. Dylai staff sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i fyfyrwyr y bydd y cyflwyniad yn wahanol (er enghraifft, ni fydd y myfyrwyr yn cael derbynneb digidol). Dylid parhau i roi graddfa ac adborth trwy gyfrwng Blackboard Assignment i fyfyrwyr eu gweld ar-lein.

**Pwynt 2:** *Nodir mai'r 15 diwrnod gwaith yw o ddydd Llun i ddydd Gwener pan fydd y Brifysgol ar agor, ac y dylid ychwanegu'r wybodaeth hon i bob llawlyfr staff a'i ddosbarthu'n eang.*

**Gofynnir i staff academaidd wneud yn sicr bod myfyrwyr yn derbyn marc ac adborth ar eu hasesiadau o fewn 15 diwrnod gwaith.**

**\*\*\*15 diwrnod gwaith yw dydd Llun i ddydd Gwener pan fydd y Brifysgol ar agor.** Edrychwch ar wefan AD i gael y dyddiadau: <http://www.aber.ac.uk/cy/hr/employment-information/important-dates/>. Ystyrir bod unrhyw adeg y tu allan i'r dyddiadau a nodir gan AD yn ddyddiau gwaith (ac eithrio penwythnosau). \*\*\*\*

Rhaid rhoi gwybod i fyfyrwyr mai dros-dro yw'r marciau tan iddynt gael eu cadarnhau gan y byrddau arholi.

**Cyflwynir pob traethawd hir israddedig yn electronig o'r flwyddyn academaidd nesaf ymlaen.**

**Cyfarwyddyd Senedd:** Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno copi electronig o'r traethawd hir o fis Medi 2015 ymlaen.

Yr adran fydd yn penderfynu a oes angen copi papur. Y copi electronig fydd y fersiwn derfynol a fydd yn cael ei gwirio am lèn-ladrad a chyfateb-testunnau.

Yn achos argraffu, gall yr adran naill ai:

- 1) Ofyn i'r myfyrwyr argraffu eu copi eu hunain (gweler isod) neu
- 2) Ddefnyddio'r gwasanaeth argraffu canolog, sydd wedi'i osod i fyny yn rhan o'r prosiect e-gyflwyno

**Argraffu:** DS: Does **dim** canllawiau prifysgol sy'n cyfarwyddo'r myfyrwyr i gyflwyno copi ffurfiol o draethawd hir israddedig wedi'i rwymo. Gall copi wedi'i argraffu gan y myfyrwyr gael ei styffylu, ei rwymo'n anffurfiol neu ei rwymo'n ffurfiol gyda label meingefn. Yr adran sy'n diffinio ansawdd y rhwymiad. Mae cysondeb o ran profiad y myfyriwr yn bwysig; felly lle bo'n bosib, dylai canllawiau Athrofa fod mor debyg â phosibl. **Argymhellir (lle bo hynny'n gymwys ac ar sail adran wrth adran) gofyn i'r myfyrwyr am fersiwn 'rhwymiad dur dros-dro'.**

**Dyddiadau ar gyfer rhoi copïau papur i adrannau:** cytunwyd gyda chyfarwyddwyr israddedig yr Athrofa y byddai adrannau'n derbyn copi o'r dderbynneb gan yr uned rwymo neu'r darparwr lleol yn lle'r traethawd hir wedi'i argraffu (i ganiatáu amser i brosesu'r copi papur). Byddai hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gwrdd â'r dyddiad cau ac i'r copi papur ddilyn ar ôl ei brosesu. Yn y cyfamser, byddai'r copi electronig ar Turnitin ar gyfer cyfeirio ato a'i farcio.

#### **Datblygiadau yn y dyfodol:**

Argymelliadau'r Senedd: Y dylid cyflwyno pob traethawd ymchwil Uwchraddedig trwy Gwrs a PhD yn electronig yn amodol ar drafodaethau pellach â'r Gwasanaethau Gwybodaeth, y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion ac Ysgol y Graddedigion.

Bydd **gosodiadau di-ofyn** yn eu lle o fis Medi 2015. Mae hyn yn golygu y bydd aseiniadau'n cael eu cynhyrchu'n awtomatig gan y system berthnasol yn hytrach nag â llaw; sy'n golygu na fydd yn rhaid i gydlynwyr modiwlau osod pob asesiad ar Turnitin neu Blackboard â llaw.

**Trosglwyddo marciau'n uniongyrchol i Astra.** Bydd hyn hefyd yn ei le yn dilyn prawf gyda nifer fach o adrannau. Y nod yw sicrhau y bydd prosiect peilot yn ei le ar gyfer semester 2: 2015-16. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig i bob aseiniad an-nhestunol gael ei osod i fyny ar gyfer darparu adborth electronig er mwyn osgoi gorfod nodi marciau â llaw.

**Hyfforddiant:** mae Academi Aber yn cynnig hyfforddiant bob bore dydd Gwener ar sail galw heibio: <http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/Aber+Academy>

**i-Pads:** mae i-Pads ar gael i'w benthg gan Gwasanaethau Gwybodaeth: <http://www.aber.ac.uk/cy/is/media/loans/>